



Gweithdrefnau Diogelu Cymru

‘Beth sy’n Wahanol?’ Diogelu Oedolion

Canllaw Cyflym i Newidiadau Allweddol

Mae'r newidiadau allweddol a amlygir yn y 'Canllaw Cyflym' hwn wedi'u nodi gan grŵp gorchwyl o ymarferwyr diogelu.

Mae'r Ddyletswydd i Adrodd wedi bod yn arfer a gydnabuwyd yng Ngogledd Cymru ers cyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014), felly i lawer o ymarferwyr (y tu allan i'r awdurdod lleol, iechyd, yr heddlu), y prif newidiadau y dylid canolbwyntio arnynt yw termau newydd, cyflwyno rôl yr Unigolyn Diogelu Dynodedig, a newidiadau o ran pwyslais mewn agweddau fel cyd-gynhyrchu, canolbwyntio ar unigolion, eiriolaeth ac ati.

Ar gyfer awdurdodau lleol, iechyd a'r heddlu, bydd effaith y gweithdrefnau newydd i oedolion ar brosesau mewnol yn fwy sylweddol.

Mae rhai agweddau yn y gweithdrefnau newydd yn aros yn agored i rywfaint o ddehongliad gwahanol, felly os bydd unrhyw un sy'n darllen y canllaw hwn yn pryderu am unrhyw agwedd ar y wybodaeth a ddarperir, cysylltwch ag Uned Fusnes Diogelu Gogledd Cymru er mwyn i unrhyw faterion neu bryderon gael eu dilyn.

Adran 1

EGWYDDORION DIOGELU AC ARFER EFFEITHIOL: OEDOLION SYDD MEWN PERYGL O GAMDRINIAETH AC/NEU ESGEULUSTOD

Mae'r adran hon yn amlygu'r egwyddorion diogelu, deddfwriaeth ategol, arweiniad a'r gweithdrefnau. Mae'n dweud bod arfer effeithiol yn fwyaf tebygol o ddigwydd os oes cysonder ym mhob un o'r uchod. Yn yr adran hon, darperir diffiniadau o oedolion sydd mewn perygl o gamdriniaeth ac esgeulustod yn ogystal ag arwyddion a dangosyddion o gamdriniaeth.

Mae diogelu effeithiol yn golygu bod angen i bob ymarferwr a sefydliad chwarae eu rhan yn y broses a bod yn gyfarwydd â gweithdrefnau eu sefydliad, a'u dilyn. Mae'r canllawiau '*Handling Individual Cases*' yn disgrifio'r egwyddorion a ddylai ategu systemau diogelu ar gyfer plant ac oedolion mewn perygl.

Mae'n diffinio dull sy'n canolbwyntio ar unigolyn, gan gydnabod:

- y dylai hawliau'r unigolyn fod o'r pwys mwyaf i'r dull;
- y dylai eu lles gorau fod o'r pwys mwyaf bob amser, a dylid canfod barn, dymuniadau a theimladau'r unigolyn,
- pwysigrwydd hyrwyddo a pharchu urddas yr unigolyn,
- bod angen rhoi sylw i nodweddion, diwylliant a chredoau'r unigolyn,

- bod angen rhoi sylw i bwysigrwydd darparu cefnogaeth briodol i alluogi'r unigolyn i gymryd rhan yn y broses.

Newidiadau/symudiadau allweddol o ran arfer:

- Dylid cynnig **ymyrraeth gynnar** i unigolion pryd bynnag fo'n bosibl i'w hatal rhag bod yn oedolyn mewn perygl ac mae'n hanfodol bod yr oedolyn yn cymryd rhan weithredol wrth benderfynu ar y ffordd orau y gellir diwallu eu hanghenion.
- **Mae dilyn dull sy'n canolbwyntio ar unigolion, a chyd-gynhyrchu gyda'r oedolyn mewn perygl** yn cael ei bwysleisio trwy'r gweithdrefnau newydd.
- Bydd angen i ymarferwyr feddu ar sgiliau, gwybodaeth ac adnoddau sydd ar gael iddynt os caiff yr egwyddorion diogelu eu dilyn; mae angen i reolwyr ac asiantaethau gefnogi datblygiad parhaus sgiliau/ gwybodaeth berthnasol ymhlith staff, yn gystal â sicrhau bod adnoddau priodol ar gael i gefnogi cyd-gynhyrchu, ffyrdd o weithio sy'n canolbwyntio ar unigolion, a galluogi ymgysylltu ag oedolion sydd mewn perygl, yn y ffyrdd y mae'r gweithdrefnau newydd yn eu hawgrymu.

Adran 2

Y DDYLETSWYDD I ADRODD AM OEDOLYN SYDD MEWN PERYGL O GAMDRINIAETH AC/NEU ESGEULUSTOD

Dan Adran 162 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014), cyflwynwyd Dyletswydd i Adrodd ar bartneriaid perthnasol ac mae'n aros yr un fath yn y gweithdrefnau newydd. Er nad yw'r trydydd sector yn cael ei ystyried fel partner perthnasol, gwelir bod yr un disgwyliadau a rhwymedigaethau yn berthnasol.

Trwy Adran 2, mae canolbwynt ar ddull sy'n canolbwyntio ar unigolion. Mae hefyd symudiad tuag at gynnwys arfer gorfodol ychwanegol, mewn meysydd a gafodd eu hystyried fwy fel 'arfer gorau' o'r blaen.

Newidiadau/symudiadau allweddol o ran arfer

- Mae angen i'r **Ffurflen Dyletswydd i Adrodd (DTR)** amlasiantaeth adlewyrchu ffyrdd o weithio sy'n canolbwyntio ar unigolion, gan gynnwys safbwynt y cleient ar ganlyniadau diogelu (Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ddiweddarau'r ffurflen DTR, WCCIS ac ati. Pan fydd wedi'i gwblhau, bydd y ffurflen DTR wedi'i diwygio ar gael trwy wefan Diogelu Gogledd Cymru).
- Nawr rhaid dangos tystiolaeth o ganlyniad sy'n canolbwyntio ar unigolion yn y diwedd, e.e. ydi'r unigolyn yn teimlo'n fwy diogel nawr?
- Mae'r termau '**Adrodd**' (h.y. atgyfeiriad a '**Sawl sy'n Adrodd**' (y sawl sy'n atgyfeirio) wedi'u mabwysiadu.

- Dylai'r Awdurdod Lleol (ALI) ddarparu adborth/ cydnabyddiaeth bendant bod y ffurflen DTR wedi dod i law ...symudiad at orfodol yn hytrach nag arfer gorau.
- Bydd angen ystyried ffurflenni DTR diogelu 'mewn perygl' nawr... symudiad at orfodol yn hytrach nag arfer gorau.
- Pe bai'r Awdurdod Lleol yn symud ymlaen gydag adroddiad diogelu **yn groes i ddymuniadau'r unigolyn**, mae angen darparu rhesymau y mae modd eu cyfiawnhau dros hynny. Mae'r weithdrefn yn nodi nifer o feysydd lle gallai fod angen rhoi ystyriaeth i hyn, e.e. lle gallai tystiolaeth bwysig gael ei cholli, lle mai'r gofalwr neu aelod o'r teulu yw'r sawl sy'n cam-drin o bosibl, neu er budd y cyhoedd.
- Pe bai achos o fwrw ymlaen yn erbyn **caniatâd** yr unigolyn, mae angen i ni roi gwybod i'r oedolyn mewn perygl.
- Rôl newydd **Unigolyn Diogelu Dynodedig (DSP)**

Yr 'unigolyn Diogelu Dynodedig' (DSP) yw'r unigolyn a nodwyd yn y sefydliad (y tu allan i'r ALI):

- *Sydd ar gael i drafod pryderon diogelu*
- *Y dylid trafod â nhw, lle bo'n bosibl, ynghylch a ddylid codi problem ddiogelu gyda'r awdurdod lleol*
- *A fydd yn rheoli unrhyw weithredoedd sydd eu hangen ar frys i sicrhau bod yr unigolyn mewn perygl yn saff rhag camdriniaeth*

Dylai pob ymarferydd wybod pwy i gysylltu â nhw yn eu hasiantaeth i gael cyngor. Er dylid gwneud pob ymdrech i ofyn am gyngor gan y DSP, mae'n bosibl y bydd angen i'r ymarferydd gysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol yn uniongyrchol yn enwedig pan fyddai cysylltu â'r DSP yn arwain at oedi gormodol.

- Wrth geisio cyngor gan y tîm diogelu, yn dilyn trafodaeth, mae'r cyfrifoldeb o ran p'un a ddylid cyflwyno adroddiad neu beidio gyda'r sawl sy'n llunio'r adroddiad.
- Cymerir yn ganiataol fod **capasiti** trwy'r gweithdrefnau newydd.
- Mae'n darparu eglurder ychwanegol wrth roi ystyriaeth i **gapasiti** – dylai'r tîm diogelu roi ystyriaeth hefyd o ran lefel yr **orfodaeth** y gallai'r unigolyn fod yn ei phrofi.
- Mae dogfen adnodd canllawiau rhanbarthol newydd yn cael ei datblygu ar hyn o bryd yng Ngogledd Cymru i gefnogi Dyletswydd i Adrodd mwy priodol a bydd ar gael ar wefan Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Adran 3 rhan 1 a 2

YMATEB I ADRODDIAD AM OEDOLYN MEWN PERYGL O GAMDRINIAETH A/NEU ESGEULUSTOD

Mae'r adran hon yn cynnig canllawiau ar gyfer ymateb i adroddiad, gan nodi'r tasgau – diffinio rolau'r **'Sawl sy'n Adrodd'** a'r **'Sawl sy'n Derbyn yr Adroddiad'**, cysylltu â'r Heddlu a nodi'r broses – mae hyn yn cynnwys **ymholiadau A126** a manylion o ran ymateb i adroddiad, proses ar gyfer **trafodaeth / cyfarfod y strategaeth** a gweithdrefnau o ran sefyllfaoedd cymhleth.

Newidiadau/symudiadau allweddol o ran arfer:

- Mae'r gweithdrefnau yn cyflwyno canllawiau penodol ar feysydd y dylid eu cynnwys trwy ymholiadau A126.
- Mae'r gweithdrefnau yn cyflwyno terfynau amser i'r oedolyn gael ei weld mewn pump o amgylchiadau penodol (anaf corfforol, cam-drin rhywiol, os ydynt eisoes yn destun cynllun amddiffyn, esgeulustod difrifol / risg iechyd difrifol arall, wedi'u gadael).
- Mae'r gweithdrefnau yn cyflwyno 3 chanlyniad posibl ymholiadau A126 ('penderfyniadau'), ynghyd â 'dim camau pellach' fel opsiwn posibl.
- Mae'r gweithdrefnau yn cyflwyno terminoleg newydd – Cydlynnydd Arweiniol (Rheolwr Arweiniol Dynodedig gynt) ac Ymarferydd Arweiniol (gweithiwr cymdeithasol dynodedig fel arfer).
- Mae gweithdrefnau newydd sy'n ymwneud â dirprwyo cyfrifoldeb dros gynnal ymholiadau i asiantaethau partner fel iechyd yn cael eu cyflwyno (sydd angen eglurhad a chanllawiau mwy penodol).
- Mae rôl yr Ymarferydd Arweiniol yn nodi cyfrifoldebau o ran y cynllun gofal a chymorth parhaus.
- Mae'r gweithdrefnau yn cyflwyno meysydd penodol i gael eu cwmpasu fel rhan o gyfarfodydd strategaeth.
- Mae'r gweithdrefnau yn cyflwyno newidiadau i'r broses ar gyfer cynhadledd amddiffyn oedolion (mae hyn yn cynnwys terfyn amser penodol ar gyfer sicrhau bod adroddiadau gan asiantaethau ar gael – deuddydd cyn y gynhadledd, disgwyliad clir bod y cadeirydd yn cyfarfod â'r oedolyn mewn perygl cyn ac ar ôl y gynhadledd, canllawiau ar sicrhau bod yr oedolyn mewn perygl yn cael mynediad at wybodaeth a gasglwyd fel rhan o adroddiad ymchwilio).

Mae'r goblygiadau ar gyfer mabwysiadu'r gweithdrefnau newydd hyn yn cynnwys angen i ddatblygu ffurflenni newydd/diwygiedig a'r isadeiledd perthnasol yn y systemau electronig i gefnogi'r arfer hwn yn ogystal â hyfforddiant i staff a fydd yn gweithredu fel 'Sawl sy'n Adrodd' (staff gofal cymdeithasol fel blaenoriaeth gan eu bod yn brif ffynhonnell adroddiadau ochr yn

ochr â staff o'r maes amlasiantaeth) a 'Sawl sy'n Derbyn yr Adroddiad' (timau diogelu a/neu wasanaethau IAA).

Mae rhai ystyriaethau penodol o ran dirprwyo cyfrifoldeb yn ystod y cam ymholiad a'r rhyngwyneb rhwng ALI a phartneriaid fel iechyd. Mae'r gweithdrefnau newydd yn cydnabod bod modd dirprwyo ymholiadau i asiantaethau partner fel iechyd, fodd bynnag nid oes canllawiau clir o ran pryd/sut dylai hyn ddigwydd. Nid yw'n glir a gaiff penderfyniadau asesiad sgrinio cychwynnol eu gwneud gan ALI yn unig, neu a ellir dirprwyo hyn i bartner fel iechyd. Nid oes arwydd a ddylai penderfyniadau sgrinio gael eu gwneud ar y cyd ag iechyd lle mae'n ymwneud â phryder sy'n gysylltiedig ag iechyd.

Mae'r ddyletswydd i benderfynu ar ganlyniad yr ymholiadau A126 yn aros gyda'r ALI hyd yn oed pan fydd asiantaeth arall yn cynnal ymholiadau, fel y cyfryw bydd angen cydweithio/gwneud penderfyniadau ar y cyd gydag iechyd ar gyfer achosion iechyd wedi'u dirprwyo oherwydd natur glinigol yr ymholiadau hyn.

Mae'r gweithdrefnau newydd yn codi cwestiynau ynghylch y ffaith fod rôl yr **Ymarferydd Arweiniol** yn cael ei chyflawni gan nyrs, oherwydd mae gan y rôl hon gyfrifoldebau clir o ran y Cynllun Gofal a Chymorth Parhaus. Byddai'n debyg na fyddai nyrs yn gallu cyflawni holl swyddogaethau'r rôl hon, dim ond yr agweddau sy'n ymwneud ag iechyd.

Mae dirprwyo i asiantaethau partner fel iechyd hefyd yn codi cwestiynau o ran pwy fydd yn cadw'r cofnodion ar gyfer ymholiadau wedi'u dirprwyo.

Camau gweithredu / gwaith rhanbarthol parhaus:

- Adnodd sgrinio i gael ei gytuno/greu
- Llunio ffurflen i ddangos tystiolaeth o ymholiadau A126 a chanlyniadau
- Datblygu sail resymegol ar gyfer dirprwyo rôl cydlynnydd arweiniol (Memorandwm Cydddealltwriaeth)
- Cytuno / creu rhaglenni newydd ar gyfer cyfarfodydd
- Datganiad Cyfrinachedd newydd
- Diwygio cynllun diogelu

Ystyriaethau eraill:

- Ystyried sut rydym yn rheoli/ hwyluso cynadleddau achos
- Deall, gwerthfawrogi a dosbarthu manylion effaith bosibl gweithdrefnau newydd o ran timau / capasiti gweithredol
- Ystyried ac egluro agweddau o ran dirprwyo cyfrifoldeb yn ystod y cam ymholiadau (gan gynnwys pwy fydd yn cadw cofnod o'r ymholiad) a'r rhyngwyneb rhwng ALI a phartneriaid fel iechyd (darparu canllawiau)

- Egluro terminoleg (trafodaeth/cyfarfod strategaeth)
- Egluro a yw rôl y Cydlynnydd Arweiniol wedi'i neilltuo cyn neu ar ôl yr ymholiadau
- Ystyried cyfyngiadau gweithwyr proffesiynol eraill (fel nyrsys), o ran eu gallu i gyflawni holl swyddogaethau rôl yr Ymarferydd Arweiniol (yna eglurder a/ neu ganllawiau ychwanegol)
- Ystyried ac egluro sut fydd rôl yr Ymarferydd Arweiniol yn rhyngweithio ag achosion sy'n gysylltiedig ag iechyd/ wedi'u dirprwyo
- Ystyried meini prawf/ canllawiau trothwy o ran y sefyllfaoedd pan ddylai oedolion mewn perygl gael eu gweld yr un diwrnod: anaf corfforol, cam-drin rhywiol, yn destun cynllun diogelu eisoes, esgeulustod difrifol / risg iechyd difrifol arall, wedi'u gadael.

Adran 4

Cynllunio ac ymyriadau ar gyfer oedolyn sydd mewn perygl o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso

Mae'r adran hon yn nodi rolau a chyfrifoldebau ymarferwyr o ran cynllunio a chyflawni ymyriadau i ddiwallu anghenion gofal, cymorth a diogelu oedolyn mewn perygl.

Mae adran 4 yn darparu canllawiau am sut caiff hyn ei gyflawni trwy ddarparu cynllun diogelu gofal a chymorth. Mae gan ymarferwyr rolau a chyfrifoldebau clir o ran y cynllun diogelu gofal a chymorth. Yn y gweithdrefnau newydd, mae canolbwynt clir ar gyd-gynhyrchu o ran datblygu'r cynllun diogelu gofal a chymorth a mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar gryfder. Bydd angen i'r canolbwynt fod ar unigolion a bydd angen gwneud trefniadau sylweddol er mwyn galluogi'r oedolyn mewn perygl i gymryd rhan yn natblygiad eu cynllun diogelu gofal a chymorth.

Mae terminoleg a newidiadau newydd wedi'u cymhwyso i rolau presennol sy'n cynnwys datblygu Cydlynnydd Arweiniol, Ymarferydd Arweiniol a Chydlynnydd Arweiniol dirprwyedig. Mae rôl yr Ymarferydd Arweiniol wedi newid yn sylweddol a bydd angen i ymarferwyr ddeall eu dyletswyddau statudol newydd sy'n cynnwys gweld yr oedolyn o fewn 5 diwrnod gwaith o gyfarfod/ trafodaeth y strategaeth gydag ymweliadau dilynol pob 4 wythnos.

Newidiadau/symudiadau allweddol o ran arfer

- Y **Cydlynnydd Arweiniol** yw'r teitl newydd ar gyfer y Rheolwr Arweiniol Dynodedig.
- Mae'r **Cydlynnydd Arweiniol Dirprwyedig** yn debygol o fod yn uwch weithiwr proffesiynol sy'n cymryd y rôl a gyflogir gan sefydliad arall er enghraifft Bwrdd Iechyd PBC.
- Mae'r **Ymarferydd Arweiniol** yn debygol o fod yn weithiwr cymdeithasol dynodedig / cydgysylltydd gofal a bydd yn gyfrifol am ddiweddarau'r cynllun diogelu gofal a chymorth. Eu cyfrifoldeb nhw fydd sicrhau ei fod yn nodi **anghenion gofal a chymorth cyfannol** yr oedolyn a ddylai **ganolbwyntio ar unigolion** a dylai fod yn **seiliedig ar gryfderau**. Ni fydd cynllun amddiffyn oedolion ar wahân bellach. Caiff pob maes angen ei nodi ar y cynllun diogelu gofal a chymorth.

- Bydd yr Ymarferydd Arweiniol yn gyfrifol am ymgysylltu â'r oedolyn ac am sicrhau lle bo'n bosibl, eu bod yn cyfrannu at ddatblygu eu **cynllun diogelu gofal a chymorth**.
- Mae canolbwynt ar **ymgysylltu â'r oedolyn**, gan ofyn am eu barn a'u dymuniadau yn rheolaidd.
- Dylai'r **Grŵp Strategaeth** (mynychwyr y cyfarfod/ trafodaeth strategaeth) adolygu'r cynllun diogelu gofal a chymorth yn rheolaidd.
- Yr Ymarferydd Arweiniol fydd yn gyfrifol am ddiweddarau'r cynllun diogelu gofal a chymorth i sicrhau ei fod yn nodi anghenion gofal a chymorth cyfannol yr oedolion.
- Bydd y cynllun diogelu gofal a chymorth yn ceisio dileu neu leihau risg gyda phwyslais ar strategaeth rheoli risg i gefnogi'r oedolyn i **gyflawni eu canlyniad dymunol**.

Camau gweithredu / gwaith rhanbarthol parhaus:

- Ystyried sut caiff ymweliadau statudol bob 4 wythnos eu rheoli a'u cofnodi
- Datblygu cynllun gofal a chymorth y gellir ei gadw yn y system WCCIS y gellir ei ddiwygio ar ôl adolygiadau rheolaidd
- Datblygu ymyrraeth hyfforddiant Cam 3 (ALI ac Iechyd) o ran rolau a chyfrifoldebau'r Cydlynnydd Arweiniol a'r Ymarferydd Arweiniol

Adran 5

HONIADAU/PRYDERON DIOGELU YNGHYLCH YMARFERWYR A'R RHAI HYNNY MEWN SWYDDI O YMDDIRIEDAETH

Mae adran 5 yn nodi ymateb statudol yr Awdurdod Lleol i bryderon am ymarferwyr (pryderon proffesiynol blaenorol). Yn draddodiadol, mae pryderon proffesiynol wedi'u nodi, asesu, a'u rheoli fel rhan o'r broses Diogelu Oedolion, ond mae'r gweithdrefnau newydd hyn angen proses ar wahân ar gyfer pryderon am ymarferwyr (term cynhwysfawr newydd i bob un) a all redeg ar y cyd â'r broses ddiogelu, neu yn absenoldeb oedolyn mewn perygl a nodwyd, ar ei phen ei hun.

Mae'r dull hwn yr un fath â'r Gwasanaethau Plant ac mae'n cynrychioli newid sylfaenol o ran arfer. Felly, bydd y goblygiadau ar gyfer mabwysiadu'r gweithdrefnau newydd hyn yn cynnwys angen i ddatblygu cyfres newydd o ffurflenni a'r isadeiledd perthnasol yn WCCIS i gefnogi'r arfer hwn; yn ychwanegol at hyfforddiant ar gyfer staff diogelu craidd a fydd angen gweithredu'r newid hwn i arfer gweithredol o ddydd i ddydd. Ymhellach, bydd angen cwblhau camau codi ymwybyddiaeth ar sail amlasiantaeth.

Newidiadau/symudiadau allweddol o ran arfer:

- Mae angen i atgyfeiriadau Diogelu Oedolion sy'n ymwneud â gweithwyr proffesiynol/ pobl mewn swyddi o ymddiriedaeth gael eu hystyried dan adran 5 bellach
- Bydd atgyfeiriadau diogelu oedolion a phryderon proffesiynol yn rhedeg ochr yn ochr â'i gilydd
- Caiff trafodaethau strategaeth proffesiynol eu cynnal gyda'r heddlu bob amser i benderfynu a yw'n bodloni'r trothwy ar gyfer pryderon proffesiynol
- Canllawiau ar bynciau a strwythur y Cyfarfod Proffesiynol
- Mae pedwar canlyniad posibl y mae modd eu cofnodi bellach; Heb ei brofi, Wedi'i brofi, Heb sylfaen, ac Wedi'i ddyfeisio'n fwriadol a/neu faleisus
- Bydd angen cofnodi gweithwyr proffesiynol/pobl mewn swyddi o ymddiriedaeth dan drafodaeth ar WCCIS a rhoi gwybod am hyn

Camau gweithredu / gwaith rhanbarthol parhaus:

- Adnodd Canllawiau Rhanbarthol ar gyfer diogelu oedolion, sy'n cynnwys nodi pryderon proffesiynol
- Rhaglen/cymorth cof newydd ar gyfer y cyfarfod strategaeth pryderon proffesiynol
- Canllawiau canlyniadau i gefnogi ymarferwyr wrth sgorio honiadau
- Cytundeb o ran sut caiff y Broses Diogelu Oedolion a phroses AD Fewnol Asiantaethau eu rhedeg ar y cyd
- Rhoi gwybod i'r heddlu am y cynnydd posibl o ran galw am drafodaethau strategaeth
- Polisi diogelu/cadw data WCCIS o ran gweithwyr proffesiynol a nodwyd
- Ystyried effaith canllawiau cenedlaethol ar y polisiâu AD/ Disgyblu presennol
- Ystyried/ egluro sut y bydd proses pryderon ymarferwyr yn rhyngweithio ag achos amddiffyn oedolion

- Ystyried sut gallwn weithio gyda darparwyr, comisiynwyr, AGC i weithredu newidiadau/gwelliannau o ran cyfarfod strategaeth proffesiynol